


ARDAL Y FEDDYGFA



SUT I DDOD O HYD I NI

- Lleolir Llys Meddyg o fewn muriau Castell Conwy, mewn tŷ Sioraidd Rhestredig Graddfa II. Nid oes cyfleusterau parcio ger y feddygfa, ond mae maes parcio 'Talu ac Arddangos' cyfnod byr oddeutu 250 llath i ffwrdd.
- Os byddwch yn teithio o'r dwyrain, dewch oddi ar yr A55 ar gyffordd 18 a dilynwch yr arwyddion i mewn i Conwy ar hyd yr A547 – stryd Rose Hill (system un ffordd). Wrth i chi fynd o dan fwa ym mur y castell, trowch i'r dde a dilynwch y system un ffordd ar hyd Town Ditch Road, Berry Street a thrwy'r goleuadau traffig ar Castle Street.
- Lleolir y feddygfa mewn adeilad melyn, 100 llath i ffwrdd ar y chwith.

SUT GELLWCH CHI EIN HELPŪ:

- Byddwch yn brydlon ar gyfer eich apwyntiad
- Peidiwch â chyrraedd yn rhy fuan ar gyfer y syrjeri agored
- Os bydd raid i chi ganslo'ch apwyntiad, dywedwch wrthym cyn gynted â phosibl
- Rhowch o leiaf 48 awr o rybudd i ni ar gyfer ail bresgripsiwn
-

MEDDYGFA LLYS MEDDYG

23 Castle Street, Conwy LL32 8AY

Ffôn: 01492 592424

Rhif ffacs:

01492 593068

Gwasanaeth y tu allan i oriau:

0300 123 5566

Gwefan: www.llysmeddygconwy.co.uk

Partneriaid:

Dr Catherine M Hindle

MB, BS [Llundain, 1983] DRCOG, MRCGP

Dr Mahimairaj Britto

MBBS [Chennai, India 2000]

Gyda chymorth:

Dr Bridget Osborne

MB, BS [Royal Free Hospital, Llundain 1980] MRCP(UK), FRCGP

Croeso i Feddygfa Llys Meddyg

Nodiadau

Mae Meddygfa Llys Meddyg yn gwasanaethu tref Conwy gyfan yn ogystal â'r trefi a'r pentrefi cyfagos. Gweler ffiniau ein meddygfa ar dudalen ôl y daflen hon.

Mae ein tîm yn cynnwys pedwar meddyg teulu a dwy nyrs feddygfa, a gefnogir gan reolwr y feddygfa, staff gweinyddol a derbynfa. Rydym yn cynnig gwasanaeth meddygfa lawn ac yn cynnal clinigau arbenigol i ferched beichiog, i'r rhai sydd â chyflyrau diabetes ac asthma ac i gleifion sydd angen mân lawdriniaethau.

Mae'r feddygfa'n gweithredu rhestr agored dan ganllawiau cytundeb Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Rydym yn ymfalchïo ein bod yn darparu gofal meddygol o'r radd flaenaf i'r holl deulu ac rydym yn anelu i drin ein holl gleifion yn brydlon, cwrtais ac yn hollol gyfrinachol.

Mae'r daflen hon ar gyfer ein cleifion presennol a'r rhai sy'n ystyried cofrestru gyda ni. Mae'n dweud wrthyhych am ein gwasanaethau, sut i gael mynediad atynt ac ychydig o wybodaeth gyffredinol ynghylch sut mae'n meddygfa'n gweithredu. Fodd bynnag, os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch, mae croeso i chi ofyn i unrhyw aelod o dîm y feddygfa. Ar gael hefyd mewn print bras.

Os ydych yn byw yn ardal ein meddygfa ac fe hoffech gofrestru gyda ni, cwblhewch un o'n ffurflenni cofrestru sydd ar gael o'r dderbynfa. Byddwch yn gallu dweud pa ymarferydd yr ydych yn dymuno'i weld ar y ffurflen. Fodd bynnag, byddwch yn cofrestru gyda'r feddygfa, yn hytrach na chyda MT unigol. Mae'n rhaid i bob claf newydd fynychu apwyntiad cofrestru.

Byddwn yn derbyn myfyrwyr meddygol pumed flwyddyn o Brifysgol Lerpwl yn dod i'r feddygfa fel rhan o'u hyfforddiant. Mae'n bosibl byddwn yn gofyn i chi weld myfyriwr, ond mae hawl gennych i wrthod a byddwch bob amser yn gweld un o'n meddygon hefyd.

ORIAU AGOR A GWEITHDREFNAU APWYNTIADAU

Derbynfa ar agor 08.00am - 6.30pm dydd Llun i ddydd Gwener

Ymgynghoriad

Mae ymgynghoriadau 'drwy apwyntiad' ar gael yn y bore a'r prynhawn ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae'r feddygfa hefyd yn cynnig 'Meddygfa Agored' bob dydd ar gyfer problemau brys ac afreolaidd, pryd cewch fynychu heb apwyntiad rhwng yr amserau canlynol:

Dydd Llun	9:30am - 11:00am
Dydd Mawrth	10:15am - 11:00am
Dydd Mercher	10:15am - 11:00am
Dydd Iau	10:15am - 11:00am
Dydd Gwener	10:15am - 11:00am

Peidiwch â dod i'r Feddygfa Agored ddim cynt na chwarter awr cyn yr amserau hyn.

Mae'r apwyntiadau am 10 munud ac ar gyfer un person yn unig. Os ydych chi'n credu bydd angen apwyntiad hirach arnoch, dywedwch hyn wrth y derbynnydd.

Byddwn yn gwneud ein gorau i gadw at yr amserau apwyntiad, ond o gofio natur y swydd, weithiau mae oediadau'n anochel. Gofynnwn i chi fod yn amyneddgar os bydd hyn yn digwydd. Nodwch, o dro i dro, mae'n bosibl na fydd modd i chi weld y meddyg o'ch dewis, oherwydd gwyliau, newydd fod ar alwad neu'n ymgymryd â hyfforddiant pellach. Pan fydd hyn yn bod, bydd ein staff un ai'n cynnig apwyntiad i chi weld meddyg arall neu ddweud wrthych pryd fyddai'r amser gorau i gysylltu â ni eto i weld y meddyg o'ch dewis.

YMWELIADAU CARTREF

Bydd ein meddygon fel arfer yn gallu gweld pedwar claf yn y feddygfa yn yr amser bydd yn gweld un ar ymweliad cartref. Oherwydd hyn, gofynnwn i'n cleifion sy'n gallu teithio i ddod i'r feddygfa, os yn bosibl. Dylid gwneud ceisiadau am ymweliadau â chleifion caeth i'w tai cyn **11:00am**. Gwneir yr ymweliadau'n unol â doethineb y meddygon.

CYFRINACHEDD CLEIFION

Parchwn eich hawl i breifatrwydd ac rydym yn cadw'ch holl wybodaeth yn gyfrinachol a diogel.

Mae'n bwysig fod y GIG yn cadw cofnodion cywir a chyfredol am eich iechyd a'ch triniaethau, fel bod y rhai sy'n eich trin yn gallu cynnig y cyngor a'r gofal gorau posibl. Dim ond y rhai sy'n gysylltiedig â'ch gofal sydd â mynediad at yr wybodaeth a ni ddylai unrhyw un nad yw'n gysylltiedig â'ch gofal ofyn i chi am wybodaeth feddygol bersonol.

Mae hawl gennych i wybod pa wybodaeth sydd gennym amdanoch. Os hoffech weld eich cofnodion, cysylltwch â rheolwr y feddygfa.

CYFRIFIADURON

Rydym yn defnyddio cyfrifiaduron i helpu cynnal y feddygfa ac mae'n holl weithgareddau trin data yn cydymffurfio â Deddf Gwarchod Data 1998.

DEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000

Cofrestrwyd y feddygfa dan y ddeddf hon ac mae ganddi gynllun cyhoeddiadau cymeradwy.

ARGYMHELLION A/NEU GWYNION

Mae Llys Meddyg yn anelu i gynnig gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'n holl gleifion. Rydym bob amser yn ceisio gwella ansawdd ein gofal, nid ydym bob amser yn cael popeth yn iawn! Os bydd gennych unrhyw bryderon ynghylch unrhyw agwedd o'n gwasanaeth, siaradwch gyda Rheolwr ein Meddygfa, Kate Kiddell. Byddwn yn ymdrin â'ch pryderon ar unwaith ac yn gyfrinachol.

Bydd modd datrys y rhan fwyaf o achosion neu bryderon yn rhwydd iawn. Fodd bynnag, os nad ydych yn teimlo'n bod wedi ymdrin â'r materion rydych wedi'u codi yn foddhaol, cewch ysgrifennu at y Rheolwr Cwynion:

Chief Executive, BCUHB, Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd Bangor, LL57 2PW Tel: 01248 384 194

Tîm y Feddygfa

RHIFAU FFÔN DEFNYDDIOL

Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau Gogledd Cymru 0300 123 5566
(gwasanaeth y tu allan i oriau rhwng 6.30pm ac 8am yn ddyddiol, ar benwythnosau a gwyliau banc)
Galw Iechyd Cymru 0845 4647

FFERYLLFEYDD

Rowlands, Castle Street 01492 592453
Rowlands, High Street 01492 592418
Boots, Cyffordd Llandudno 01492 581153
Fferyllfa Rowlands, Deganwy 01492 583431
Fferyllfa Asda, Llandudno 01492 872556
Boots, Craig y Don 01492 877029

YSBYTAI

Llandudno 01492 860066
Ysbyty Gwynedd, Bangor 01248 384384
Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan 01745 583910

Rydym yn anelu i drin ein cleifion yn gwrtais bob amser a disgwylwn i'n cleifion drin ein staff yn yr un modd. Byddwn yn cymryd unrhyw ymddygiad bygythiol, ymosodol neu dreisgar yn erbyn aelod o'n staff neu glaf o ddifrif. Os bydd claf yn dreisgar neu ymosodol, byddwn yn gofyn iddyn nhw beidio ymddwyn fel hyn. Os na fydd hyn yn digwydd, mae'n bosibl byddwn yn defnyddio'n hawl i'w symud o'n heiddo ar unwaith, ac os bydd raid, oddi ar ein rhestr o gleifion.

Sisters:

Sue Turner, SRN, SCM
Debbie Simpson, RGN

Cymhorthydd Gofal Iechyd:

Gillian Rowlands

Rheolwr y Feddygfa:

Kate Kiddell

Staff y Dderbynfa a Gweinyddol:

Pat Roberts, Sally Roberts,
Terri Starr, Stacey Hughes a Julie Sprague

Amserau'r Feddygfa

Mae'r amserlen isod yn darparu gwybodaeth am y gwahanol ddyddiau ac amserau mae'r Tîm Gofal Cychwynnol ar gael. Mae'r amserau a dyddiau'n destun i newid ar gyfer gwyliau a dyddiau hyfforddiant.

	Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<u>Dr Hindle</u>	9.30 am To 5.30pm	8.45am To 1pm		8.45am to 5.30pm	
<u>Dr Britto</u>	9.30am - 5.30pm	9.00 am To 5.30 pm	9.00am to 5.30pm	9:00am to 1:00pm	9.00am to 5.30pm
<u>Dr Osborne</u>			8.45am To 5.30 pm		8.45am To 5.30 pm
<u>Sister Turner</u>	9.00 am To 5.30pm			9:00am - 5.30pm	9:00pm - 5:30pm
<u>Sister Simpson</u>	2:00pm - 5:30pm	9:00am - 5.30pm	9.00am - 5.30pm	9:00am - 1:00pm	

GWASANAETHAU ERAILL A GYNIGIR

•**Mân Lawdriniaethau:** Gellir trin mân lymphiau ac anafiadau yn ystafell y nyrs, lle ceir cyfarpar priodol a chedwir y cyfleusterau sterileiddio. Cynhelir clinig mân lawdriniaethau'n fisol. Cynhelir y cryolawdriniaethau gan Dr Raj Britto

•**Dulliau atal cenhedlu a HRT:** Cyngor ynghylch bob math o ddulliau atal cenhedlu, gan gynnwys gosod coiliau a'r bilsen 'bore wedyn' ar gael a gwneir gwiriadau dilynol gan y nyrs.

•**Gofal Asthma/Resbiradol a Diabetes:** Mae'r rhain yn feysydd o ddi-ddordeb arbennig i'n ffin a chredwn gall gwiriadau rheolaidd eich helpu i barhau'n iach. Cynhelir clinigau rheolaidd ar gyfer y ddau glefyd gan nyrsys ein meddygfa – gofynnwch wrth y dderbynfa.

•**Clefyd y Galon:** Mae nyrsys ein meddygfa'n cynorthwyo'r meddygon i drin cleifion gyda chlefydau coronaidd y galon a sut i leihau risgiau o'i ddatblygu.

•**Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu:** Mae ein nyrsys hefyd yn gymwys i gynghori cleifion sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu a hefyd yn gallu cefnogi a chynorthwyo.

•**Goruchwyllo lechyd Plant:** Gwneir gwiriadau rheolaidd ar y cyd gyda'r ymwelydd lechyd.

Gofal Cyn Geni: Os ydych yn feichiog, dewch i'n gweld cyn gynted â phosibl. Drwy wneud hyn, gellir rhoi'r cyngor gorau i chi a'ch baban ac i chi gael y gorau o'ch beichiogrwydd. Anogir partneriaid i fynychu, oherwydd mae'n helpu i baratoi ar gyfer yr achlysur hapus y ffordd orau bosibl.

Brechiadau: Anogir ein holl gleifion dros 65 i gael brechiadau fflwri a niwmonia, hefyd cleifion eraill o dan 65 sydd â chyflyrau meddygol penodol. Am wybodaeth bellach, siaradwch gyda nyrs y feddygfa.

Cwmsela: Mae'r feddygfa yn cynnig gwasanaethau cwnselydd cymwys. Am wybodaeth bellach, siaradwch gyda M.T.

SJ/MT/MEDDYGFA LLYS MEDDYG/TAFLENNI/PRACTICE LEAFLET UPDATED APRIL 2012.doc

Fferyllfa Leol

Bydd eich fferylllydd lleol yn gallu rhoi cyngor iechyd am ddim i chi unrhyw amser – nid oes angen apwyntiad.

GYDA'R NOS A PHENWYTHNOSAU

Darperir gwasanaethau gofal meddygol y tu allan i oriau'r feddygfa a gwyliau banc gan **Tu Allan i Oriau Gogledd Cymru**, y gwasanaeth cydnabyddedig y tu allan i oriau a gomisiynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael rhwng 18:30 a 08:00 dydd Llun i ddydd Iau ac ar benwythnosau o 18:30 ar ddydd Gwener hyd 08:00 ar ddydd Llun. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael ar **bob** gŵyl banc. Bydd galwadau'n cael eu hateb gan staff a hyfforddwyd yn llawn a disgwylir i gleifion a all gerdded deithio i gael eu gweld mewn canolfan y tu allan i oriau.

**Y rhif ar gyfer Tu Allan i Oriau Gogledd Cymru yw:
0300 123 5566**

Galw lechyd Cymru

Mae Galw lechyd Cymru yn cynnig gwybodaeth a chyngor iechyd arbenigol ar ddim,

24 awr y dydd ar **0845 4647** neu ar eu gwefan,

www.galwiechydymru.wales.nhs.uk sydd hefyd yn cynnig gwasanaeth ymholiadau.

Mae gwasanaeth ffôn ar gael i bobl fyddar a thrwm eu clyw ar 0845 6064647.

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich dewis iaith, cewch ddewis defnyddio gwasanaeth cyfieithu cyfrinachol.

NEWID ENW, CYFEIRIAD A RHIF FFÔN

Dywedwch wrthym am unrhyw newid i'ch cyfeiriad a/neu ffôn, yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl (gan gynnwys newidiadau i rifau symudol)

Gellir dod o hyd i ffurflen newid cyfeiriad ar ein gwefan a gellir ei e-bostio i'r feddygfa, os byddai'n well gennych wneud hyn.

NYRSYS Y PRACTIS

Bydd ein nyrsys yn cynnal eu sesiynau eu hunain mewn ystafell driniaethau gyda'r cyfarpar angenrheidiol. Gellir neilltuo apwyntiadau ymlaen llaw gyda'r nyrsys. Maen nhw'n hanfodol i les ein cleifion ac maen nhw'n gallu helpu/cyngori ar ystod eang o gyflyrau meddygol, gan gynnwys:

- Mân anhwylderau a damweiniau
- Gofalu am friwiau a dresins
- Gwirio pwysedd gwaed
- Profion gwddf y groth
- Cynllunio teulu
- Clinigau clefydau cronig (diabetes/resbiradol/clefyd y galon ayb)
- Rhoi'r gorau i ysmegu
- Tynnu cwyr clustiau
- HRT a diwedd y mislif
- Brechu/cyngor teithio
- Gwiriadau blynyddol i bobl dros 75 a llawer iawn mwy ...

Mae gennym aelodau eraill yn ein fim a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd Lleol. Gellir cysylltu â nhw drwy'r dderbynfaf.

NYRS GYMUNED (ARDAL)

Bydd nyrsys cymuned yn ymweld â chleifion caeth i'w tai i roi gofal nyrsio i'r rhai sy'n dioddef salwch llym, cronig neu derfynol. Byddant yn asesu anghenion y claf a chynllunio'r gofal priodol gyda'r meddygon.

YMWELYDD IECHYD

Mae gan yr ymwelydd iechyd wybodaeth am ystod eang o gyflyrau corfforol ac emosiynol a all effeithio arnoch chi a'ch plentyn. Bydd hi'n cynnal clinigau yn y feddygfa neu gall drefnu i'ch gweld yn eich cartref os bydd hyn yn fwy cyfleus.

GWEITHWR CYMDEITHASOL

Bydd gweithwyr cymdeithasol yn rhoi cyngor i gleifion ifanc, anabl ac oedranus. Maen nhw'n gallu asesu'r math gorau o ofal sydd ar gael i gleifion, boed yn eu cartref eu hunain neu mewn cartrefi preswyl/nyrsio.

BYDWRAIG

Bydd bydwragedd yn gofalu amdanoch yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl i chi eni'ch baban. Mae gennym glinig wythnosol ar fore Iau.

NYRS SEICIATRYDDOL CYMUNEDOL A GWEITHWYR IECHYD MEDDWL

Mae'r fim iechyd meddwl yn gweithio'n agos gyda'r MT a gwasanaethau'r ysbyty ac maen nhw'n gallu helpu gyda thechnegau arbenigol megis cwnsela ar gyfer iselder, pryderon a dibyniaethau o bob math.

DIETEGYDD

Mae gennym glinig dietegydd misol ar gyfer cyngor dietegol e.e. diabetes, Colesterol is, colli pwysau ayb. Rhaid derbyn atgyfeiriad gan feddyg

GWARCHODWR/WRAIG

Mae'n arferol i un o'n sisters nyrsio weithredu fel gwarchodwr/wraig ar gyfer archwiliadau preifat iawn. Os na fydd gwarchodwr/wraig yn cael ei gynnig i chi, ond hoffech i un fod yn bresennol, dywedwch wrth y meddyg a byddwn yn gallu trefnu hyn.

AIL BRESGRIPSIYNAU

Bydd sawl un ohonoch yn cymryd meddyginiaethau y mae'n rhaid ei gymryd yn rheolaidd y gellir ei archebu drwy'r post (dylid cynnwys amlen barod â stamp), ffacs, ymweld â'r feddygfa neu drwy ein gwefan yn www.llysmeddygconwy.co.uk. Gellir casglu presgripsiynau o'r feddygfa yn ystod oriau agor yn ystod yr wythnos yn unig. Defnyddiwch y bonyn i'w dorri i ffwrdd ar gyfer ail bresgripsiynau, gan nodi'r union feddyginiaeth angenrheidiol.

Peidiwch â ffonio am ail bresgripsiynau.

Mae gennym drefniant yn ei le gyda fferyllfeydd lleol i gasglu'r presgripsiynau ar eich rhan o'r feddygfa. Byddant wedyn yn cael eu paratoi yn barod i chi eu casglu yn y fferyllfa. Mae rhai fferyllfeydd yn gallu cynnig gwasanaeth danfon gartref. Holwch yn y fferyllfa briodol.

Weithiau bydd raid i ni wirio eich bod yn dal i fod angen y feddyginiaeth. Bydd eich presgripsiwn diwethaf yn eich atgoffa i wneud apwyntiad gyda'ch meddyg pan fydd ddaw dyddiad eich adolygiad. **Peidiwch ag anwybyddu'r 'dyddiad adolygu' hwn, mae'n bwysig iawn adolygu'ch meddyginiaethau'n rheolaidd.**

Fel arfer rydym yn gallu prosesu'ch ceisiadau am ail bresgripsiwn o fewn 48 awr, fodd bynnag, bydd rhoi mwy o rybudd i ni am eich anghenion yn golygu bydd presgripsiynau'n barod yn brydlon.